Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1494

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol, etc.) (Cymru) 2015

Adolygu dyfarniadau

7.—(1) Caiff awdurdod wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygu'r dyfarniad.

(2) Rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei wneud o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad.

(3) Caniateir i adolygiad gael ei gynnal gan Weinidogion Cymru (p'un ai mewn ymateb i gais neu fel arall).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r dyfarniad neu roi dyfarniad gwahanol yn ei le.